

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Mehefin 2018

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Teitl: Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru)	Rhif Cyfeirnod yr Asesiad <i>(I'w lenwi gan Uned y Gymraeg): 17/09/03</i>				
Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen:	Martin Davies a Kathryn Markey				
Dyddiad y lluniwyd yr asesiad cyntaf:	9 Awst 2017				
Diwygiwyd:	5 Mehefin 2018				
Arweinydd polisi:	Ian Walters				
Math o Raglen/Prosiect <input type="checkbox"/> Polisi <input type="checkbox"/> Prosiect neu raglen <input checked="" type="checkbox"/> Deddfwriaeth <input type="checkbox"/> Ymchwil, gwerthusiad <input type="checkbox"/> Grant <input type="checkbox"/> Gwasanaethau <input type="checkbox"/> Newid busnes <input type="checkbox"/> Contractau, tendrau <input type="checkbox"/> Seilwaith <input type="checkbox"/> Adeiladu, Cyfalaf <input type="checkbox"/> TGCh <input checked="" type="checkbox"/> Arall (nodwch isod)					
Costau: Beth a ragwelir y bydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect? Os yn llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).					
O dan £25k	£25k – £49k	£50 – £249K	£250K – £1miliwn	Dros £1miliwn	
<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>		
O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg? Dyma'r gost a fydd yn wynebu Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu Deddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) a phasio proses graffu'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r diwygiadau i'r drefn ar gyfer rheoleiddio a gynigir wedi'u nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Ddeddf hon. Nid oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r Gymraeg ac eithrio amser staff cyfieithu.					
Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?					
Hyd at 1 flwyddyn	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 10 mlynedd	Dros 10 mlynedd	Anhysbys
<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Cymerodd y broses ddeddfu flwyddyn i'w chwblhau.

Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:

Dechreuodd y gwaith o ddatblygu'r cynigion polisi yn 2016/17. Cafodd y Bil yn cael ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod mis Mai 2018 a derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 20 Mehefin 2018. Bydd y ddeddfwriaeth yn parhau mewn grym ar ôl hynny nes y cymerir camau i'w newid.

Yn ychwanegol at hynny, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Mai a Gorffennaf 2017. Lluniwyd asesiad ar wahân o'r effaith ar y Gymraeg ar gyfer yr ymgynghoriad. Mae'r ddogfen ymgynghori, crynodeb o'r ymgynghoriad a'r asesiad o'r effaith ar y Gymraeg i'w gweld yn:

<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/diwygio-rheoleiddio-landlordiaid-cymdeithasol-cofrestredig>

Cyhoeddwyd asesiad effaith ar y Gymraeg pan gyflwynwyd y Bil gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Hydref 2017. Diwygiwyd y fersiwn hon o'r asesiad effaith yn unol â Deddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) fel ag yr oedd adeg y Cydsyniad Brenhinol ym mis Mehefin 2018.

CAM 1: CYNLLUNIO

Beth yw nodau ac amcanion y polisi?

Beth yw'r canlyniadau dymunol / beth fydd yn dynodi 'llwyddiant'?

Nod Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) fydd diwygio neu ddileu'r elfennau hynny o reolaethau llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog sydd wedi arwain at benderfyniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) i ddsbarthu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru yn Gorfforaethau Cyhoeddus Anariannol. Dylai hyn alluogi'r ONS i ystyried ailddosbarthu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn Gorfforaethau Preifat Anariannol.

Ar 29 Medi 2016, cyhoeddodd yr ONS ganlyniad ei adolygiad o ddsbarthiad ystadegol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Yn yr un modd ag y gwnaeth ar gyfer Cymdeithasau Tai Lloegr, daeth yr adolygiad i'r casgliad bod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru yn gyhoeddus, ac felly'n cynhyrchu ar gyfer y farchnad. Cânt eu hailddosbarthu i'r is-sector Corfforaethau Cyhoeddus Anariannol at ddibenion cyfrifon gwladol ac ystadegau economaidd eraill ONS. Yng Nghymru, mae'r penderfyniad yn cael effaith o 24 Gorffennaf 1996.

Y prif reswm dros ddod i'r casgliad hwn oedd bod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ddarostyngedig i reolaeth y sector cyhoeddus, yn bennaf drwy'r hyn a elwir yn bwerau rheoleiddio, fel yr amlinellir yn Neddf Tai 1996.

Mae ailddosbarthu yn arwain at oblygiadau ariannol sylweddol i Lywodraeth Cymru a sector y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. O ganlyniad i ailddosbarthu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i'r sector cyhoeddus, mae Dyled Net y Sector Cyhoeddus a Lefelau Benthyciadau Net y Sector Cyhoeddus yn cynyddu. Bydd y cynnydd i Lefelau Benthyciadau Net y Sector Cyhoeddus yn digwydd gan y bydd unrhyw lefelau benthyciadau'r sector preifat o'r farchnad a gymerwyd gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig newydd eu hailddosbarthu i'r sector cyhoeddus yn sgorio fel tâl yn erbyn cyllideb Llywodraeth Cymru. Golyga hyn y byddai'r symudiad blynyddol i ddyled sector preifat Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn sgorio yn erbyn cyllideb Llywodraeth Cymru.

Heb ailddosbarthu yn ôl i sefydliadau'r sector preifat, byddai'n rhaid i gyllid ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i adeiladu a gwella tai cymdeithasol gystadlu â blaenoriaethau eraill prosiect cyfalaf Llywodraeth Cymru. Byddai hyn yn debygol o gael effaith negyddol sylweddol ar ddarparu tai cymdeithasol, ac ar gyrraedd nod Llywodraeth Cymru o gael 20,000 o dai fforddiadwy newydd yn ystod tymor y weinyddiaeth hon.

Byddai dileu neu ddiwygio rheolaethau rheoleiddio perthnasol (dangosyddion rheolaethau'r llywodraeth ganolog) yn galluogi penderfyniad ONS i ailddosbarthu i gael ei adolygu.

Cyflwynodd Llywodraeth y DU ddeddfwriaeth ar frys ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn Lloegr, drwy Ddeddf Tai a Chynllunio a alluogodd i'r

aiddosbarthiad gael ei wrthdroi. Mae Gweinyddiaeth yr Alban hefyd wedi cyflwyno deddfwriaeth i ganiatáu ar gyfer adolygiad pellach gan ONS o ddsbarthiad Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Roedd adolygiad ONS o ddsbarthiad Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru yn canolbwyntio ar asesiad o'r rheolaethau rheoleiddio (dangosyddion rheolaethau'r llywodraeth ganolog) sy'n berthnasol i'r Landlordiaid hyn, a amlinellwyd yn y lle cyntaf yn Neddf Tai 1996, gan gynnwys y darpariaethau a fewnosodwyd gan Fesur Tai (Cymru) 2011.

Cafodd y gwaith o ddatblygu'r Ddeddf ei lywio gan yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion polisi.

Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?

a

Beth fydd yr effeithiau os *na* fydd y polisi'n cael ei weithredu?

Cafodd dau opsiwn eu hystyried yng Nghymru:

Opsiwn 1 – Gwneud dim (hy Peidio â diwygio'r drefn ar gyfer rheoleiddio)

Heb aiddosbarthu yn ôl i sefydliadau'r sector preifat, byddai'n rhaid i gyllid ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i adeiladu a gwella tai cymdeithasol gystadlu â blaenoriaethau eraill prosiect cyfalaf Llywodraeth Cymru. Byddai hyn yn debygol o gael effaith negyddol sylweddol ar ddarparu tai cymdeithasol, ac ar gyrraedd nod Llywodraeth Cymru o gael 20,000 o dai fforddiadwy newydd yn ystod tymor y llywodraeth hon.

Opsiwn 2 – Deddfu i ddileu neu ddiwygio rheolaethau perthnasol y llywodraeth ganolog a llywodraeth leol i alluogi'r ONS i adolygu'r penderfyniad i aiddosbarthu.

Bydd dileu'r pwerau a bennir gan ONS i ddangos rheolaeth yn lleihau rheolaeth Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol dros sector y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn yr un ffordd ag y mae deddfwriaeth debyg wedi'i gwneud yn Lloegr. Mae mesurau'n cael eu datblygu i liniaru unrhyw risgiau sylweddol i randdeiliaid (Tenantiaid, Benthycwyr, y Llywodraeth) cyhyd ag sy'n bosibl, sy'n cyflwyno gofyniad i roi gwybod i Weinidogion Cymru am asedau sy'n cael eu gwaredu yn lle'r gofynion ynghylch cael cydsyniad, ynghyd â chadw pŵer i gael gwared ar Gyfarwyddwyr pan fo pryderon y gallent fod yn gweithredu'n groes i safonau a gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol. Mae hyn yn ychwanegol at gyflwyno fframwaith rheoleiddio newydd ym mis Ionawr 2017 sy'n sicrhau bod safbwynt y Gweinidog ar berfformiad Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn glir ac yn gyhoeddus.

Roedd diwygio rheolaethau yn hanfodol i gyrraedd man lle gallai'r ONS eto adolygu penderfyniad ynghylch dosbarthiad Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, gyda golwg ar eu dychwelyd i'r sector preifat.

A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg - Cymraeg 2050?

Ydy – mae'r strategaeth, gan ddyfynnu Cyfrifiad 2011, yn dangos y bu dirywiad pellach yn nifer y cymunedau yng Nghymru lle gall dros 70 y cant o'r boblogaeth siarad Cymraeg – yn ogystal â dirywiad yn nifer y cymunedau lle gall mwyafrif y boblogaeth siarad yr iaith. Mae'n nodi bod prosesau mewnfudo ac allfudo, cyfleoedd cyflogaeth cyfyngedig a chyfyngiad ar nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael i bobl leol wedi effeithio'n ddwys ar broffil demograffig ac ieithyddol llawer o gymunedau.

Byddai mesurau i ddiwygio'r drefn ar gyfer rheoleiddio yn cyfrannu at wrthdroi'r dirywiad hwn drwy ddiogelu a chynnal y cyflenwad o dai cymdeithasol (ac felly tai fforddiadwy i bobl leol) yng nghymunedau gwledig a chymunedau sy'n siarad Cymraeg.

Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar yr iaith Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?

hy siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

Drwy gymryd mesurau sy'n diogelu ac yn cynnal y cyflenwad o dai cymdeithasol, gan gynnwys mewn ardaloedd Cymraeg, rhagwelir y byddai'r cynigion yn helpu i fynd i'r afael â'r nifer cyfyngedig o dai fforddiadwy sydd ar gael i bobl leol, gan felly atal cynifer o siaradwyr Cymraeg rhag allfudo. Yn ei dro, byddai hyn yn helpu i warchod uniondeb ieithyddol a chynaliadwyedd y cymunedau hynny. Mae hyn yn unol â chynigion Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i un miliwn erbyn 2050, fel sydd wedi'i amlinellu yn ei strategaeth ar gyfer y Gymraeg.

Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN20) ar Gynllunio a'r Iaith Gymraeg (2013) yn amcangyfrif bod rhwng 1,200 a 2,200 o siaradwyr Cymraeg rhugl yn symud o Gymru bob blwyddyn. Mae'r angen i gynnal cymunedau ffyniannus sy'n darparu digon o apêl economaidd a diwylliannol i bobl leol aros yn yr ardaloedd hynny yn hanfodol – ac yn enwedig mewn cymunedau gwledig. Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn chwarae rôl hanfodol yn hyn o beth, yn enwedig gan eu bod yn blaenoriaethu tai i bobl leol sydd wedi cofrestru ar eu Cofrestrau Tai Cyffredin.

Bydd dyletswyddau newydd ar Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, fel darparwyr tai cymdeithasol, o ran y Gymraeg wrth ddelio â'u tenantiaid Cymraeg. Daeth system newydd ar gyfer rheoleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ehangach i gymryd lle Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn raddol, mae system newydd o safonau iaith yn cymryd lle'r cynlluniau iaith sydd wedi dyddio. Mae'r system newydd hon yn cyflwyno dull mwy cadarn, cyson a chlr o reoleiddio gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael i'r cyhoedd. Dyletswydd Gweinidogion Cymru yw llunio rheoliadau ar safonau sy'n berthnasol i'r sector ac mae rheoliadau ar gyfer darparwyr tai cymdeithasol yn cael eu llunio ar hyn o bryd. Ynghyd â nod Gweinidogion Cymru i ddarparu mwy o dai fforddiadwy, bydd safonau'r Gymraeg yn sicrhau bod hawliau siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau sydd wedi'u clustnodi ar gyfer gwaith cynllunio yn cael eu hystyried. Gyda'i gilydd, mae'r ddau bolisi yn sicrhau y gall cymunedau ledled Cymru ffynnu – yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ieithyddol.

Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae grwpiau sydd â buddiant yn y Gymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?

Y rhanddeiliaid y mae'r cynigion hyn yn effeithio'n uniongyrchol arnynt yn bennaf yw Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Awdurdodau Lleol. Ceir effaith anuniongyrchol ar denantiaid a darpar denantiaid y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig hefyd.

Mae grwpiau sydd â buddiant yn y Gymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i ddarpariaethau'r Bil. Os caiff ei ddeddfu, bydd yn diogelu ac yn cynnal cyflenwad o dai cymdeithasol yng nghymunedau gwledig a chymunedau sy'n siarad Cymraeg, ac mae ganddo'r potensial i gael effaith gadarnhaol mewn nifer o ffyrdd drwy helpu i gynyddu:

- Cynaliadwyedd cymunedau sy'n siarad Cymraeg
- Cyfradd trosglwyddo'r Gymraeg o fewn aelwydydd/ar hyd y cenedlaethau
- Llif siaradwyr Cymraeg i mewn i gadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg, ac allan ohonynt
- Effaith net nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg mewn rhanbarth neu'n genedlaethol
- Y gwaith o hyrwyddo, ynghyd â lefel a statws y Gymraeg o ddydd i ddydd.

Os na chaiff Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eu hailddosbarthu fel sefydliadau'r sector preifat at ddibenion cyfrifyddu, ac y byddant yn wynebu'r angen i gystadlu â blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru, bydd targed y Llywodraeth i adeiladu 20,000 o dai fforddiadwy newydd mewn perygl. Gallai cael cyflenwad annigonol o dai mewn cymunedau gwledig, yn aml cymunedau Cymraeg iaith gyntaf, gael effaith andwyol ar gynaliadwyedd yr iaith yn y dyfodol. Gallai effeithio ar nifer y disgyblion newydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, gallai gweithgareddau cymunedau Cymraeg ddechrau dirywio, a gallai fod yn amhosibl darparu gwasanaethau lleol yn Gymraeg. Os na fydd y polisi uchod yn mynd rhagddo, gallai'r canlyniadau anfwriadol hyn arwain at newid sylweddol yn natur ieithyddol cymunedau a fu'n rhai traddodiadol Gymraeg.

Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch gyfrif llawn at ddibenion cadw cofnod.

(Gellid defnyddio hwn yn y Tribiwnlys Iaith Gymraeg yn y dyfodol)

Cafodd Deddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) ei basio mewn ymateb i'r ONS yn dosbarthu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fel sefydliadau'r sector cyhoeddus ym mis Medi 2016. Heb y newidiadau a gyflwynwyd gan y Ddeddf, mae'n debygol iawn y bydd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adeiladu 20,000 o dai fforddiadwy newydd dan fygythiad. Y nod yw diogelu a chynnal y cyflenwad o dai fforddiadwy.

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol. O bosibl, fel yr amlinellir uchod, mae nifer o effeithiau cadarnhaol ar gyfer cymunedau Cymraeg. Diben diwygio'r drefn reoleiddio yw diogelu a chynnal y cyflenwad o dai cymdeithasol ym mhob rhan o Gymru. Bydd hyn yr un mor berthnasol i gymunedau sy'n siarad Cymraeg lle byddai'n cael yr effaith

gadarnhaol ychwanegol o helpu i atal cynifer o siaradwyr Cymraeg rhag allfudo, gan helpu i wella cynaliadwyedd y gymuned a helpu i hyrwyddo lefel a statws y Gymraeg o ddydd i ddydd.

Cafodd gofyniad i ymgynghori â thenantiaid cyn cymryd rhai camau penodol ei gynnwys yng Nghyfnod 3 y broses ddeddfwriaethol. Mae gofynion yr ymgynghoriad yn gosod disgwyliadau tebyg ar gyfer ymgynghori fel y nodwyd yn y Canllawiau Rheoleiddiol sy'n berthnasol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Fel y cyfryw, nid yw'n newid canlyniad yr asesiad effaith hwn.

Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?
(e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, rhestri rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor?)

Ni nodwyd unrhyw gamau gweithredu pellach. Fel y disgrifiwyd yn fanwl uchod, rhagwelir y bydd diwygio'r drefn ar gyfer rheoleiddio yn effeithio'n gadarnhaol ar gymunedau sy'n siarad Cymraeg, ac nid oes unrhyw effeithiau andwyol wedi'u nodi.

CAM 2: NODI AC ASESU EFFEITHIAU

Crynodeb o'r Asesiad Effaith

Crynowch yr asesiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.

Effeithiau cadarnhaol:

Mae'r Ddeddf yn cefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg drwy ddiogelu a chynnal y cyflenwad o dai cymdeithasol (ac felly tai fforddiadwy i bobl leol) yng nghymunedau gwledig a chymunedau sy'n siarad Cymraeg, gan helpu i gynyddu:

- Cynaliadwyedd cymunedau sy'n siarad Cymraeg
- Cyfradd trosglwyddo'r Gymraeg o fewn aelwydydd/ar hyd y cenedlaethau
- Llif siaradwyr Cymraeg i mewn i gadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg, ac allan ohonynt
- Effaith net nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg mewn rhanbarth neu'n genedlaethol
- Y gwaith o hyrwyddo, ynghyd â lefel a statws y Gymraeg o ddydd i ddydd.

Effeithiau negyddol:

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u nodi.

Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, a'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle wedi cynyddu?

Byddai'r cynigion i ddiwygio'r drefn ar gyfer rheoleiddio yn helpu i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd drwy helpu i gynyddu:

- Cynaliadwyedd cymunedau sy'n siarad Cymraeg
- Cyfradd trosglwyddo'r Gymraeg o fewn aelwydydd/ar hyd y cenedlaethau
- Llif siaradwyr Cymraeg i mewn i gadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg, ac allan ohonynt
- Effaith net nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg mewn rhanbarth neu'n genedlaethol
- Y gwaith o hyrwyddo, ynghyd â lefel a statws y Gymraeg o ddydd i ddydd.

Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:

- Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2013)
- Iaith Fyw: Iaith Byw – Strategaeth y Gymraeg 2012 i 2017
- Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg
- Trafodaeth â Changen Deddfwriaeth Iaith Gymraeg

Yn ôl yr asesiad effaith/asesiad risg, pa effaith debygol gyffredinol y rhagwelir y byddai'r polisi hwn, pe bai'n cael ei ddatblygu, yn ei chael ar y Gymraeg?	Cadarnhaol: <input checked="" type="checkbox"/> X Negyddol: <input type="checkbox"/> Niwtral: <input type="checkbox"/> Anhysbys: <input type="checkbox"/>								
Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad	<table border="1"> <tr> <td data-bbox="596 427 951 461">1. Dim newid sylweddol</td> <td data-bbox="1326 427 1353 461">X</td> </tr> <tr> <td data-bbox="596 468 1225 501">2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau</td> <td data-bbox="1326 468 1353 501"><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td data-bbox="596 508 1193 542">3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru</td> <td data-bbox="1326 508 1353 542"><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td data-bbox="596 548 1238 582">4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno</td> <td data-bbox="1326 548 1353 582"><input type="checkbox"/></td> </tr> </table>	1. Dim newid sylweddol	X	2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau	<input type="checkbox"/>	3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru	<input type="checkbox"/>	4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno	<input type="checkbox"/>
1. Dim newid sylweddol	X								
2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau	<input type="checkbox"/>								
3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru	<input type="checkbox"/>								
4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno	<input type="checkbox"/>								
<p>Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod, atebwch y canlynol: Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg? Manylion am fesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:</p>									
<p>Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych yn dymuno gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?</p>									
<p>Roedd ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion polisi drafft a gynhaliwyd rhwng mis Mai a Gorffennaf 2017 yn gwahodd rhanddeiliaid i fynegi safbwyntiau ar y cynigion ar gyfer diwygio'r drefn ar gyfer rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Cyhoeddwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori, ac roedd modd i randdeiliaid roi sylwadau arno.</p>									
<p>Aeth y Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) drwy'r broses graffu ddeddfwriaethol lawn gerbron y Cynulliad Cenedlaethol rhwng mis Hydref 2017 a mis Mai 2018. Cyhoeddwyd fersiwn flaenorol o'r asesiad effaith hwn ar y Gymraeg pan gyflwynwyd y Bil.</p>									

CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO

Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?

Nid oedd angen gwneud unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad nac ychwaith yn ystod y broses graffu ddeddfwriaethol.

Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?

Rydym wedi adolygu'r asesiad hwn o'r effaith ar y Gymraeg yn ystod proses graffu ddeddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol.

Rydym wedi adolygu'r asesiad hwn o'r effaith ar y Gymraeg yn ystod proses graffu ddeddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg

Amherthnasol

4. Datganiad

Arweinydd polisi: <i>*Dileer fel y bo'n briodol:</i> *Mae'r polisi hwn / Nid yw'r polisi hwn yn effeithio ar y Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleodd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.
Enw:
Ian Walters
Adran:
Tai ac Adfywio
Dyddiad(au):
5 Mehefin 2018
Dyddiadau Adolygu Arfaethedig: Nid oes bwriad i adolygu ymhellach yr asesiad effaith hwn ar y Gymraeg.

ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL		
Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o'r datblygiad. Drwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw dyledus. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol gydol oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygu polisi.		
Llofnodwyd	Ian Williams (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad 10/08/17
Llofnodwyd	Ian Williams (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad Adolygu 5 Mehefin 2018